PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 19 Rhagfyr 2024 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Kelly Clewett, Bobby Feeley, Jon Harland, Brian Jones, Pauline Edwards (Is-Gadeirydd), Terry Mendies, Arwel Roberts ac Elfed Williams.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Amgylchedd (TW), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (PJ), Rheolwr Asedau a Risg (AR), Cydlynydd Craffu (RE), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (ED a NH).

Cyfoeth Naturiol Cymru - Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Ddwyrain Cymru (LR), Rheolwr Gweithrediadau y Gogledd-ddwyrain (SP), Uwch Swyddog - Dulliau Rheoleiddio (TL)

Dŵr Cymru - Rheolwr Carthffosiaeth (MW), Rheolwr Cyswllt Ansawdd Afonydd (Gogledd) (EP).

Siroedd Gogledd Cymru - Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol - Swyddogion Cynllunio Rhag Argyfwng Helen Kilgannon (HK) a Madeleine Zalot (MZ)

Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant (yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor) - Y Cynghorydd Barry Mellor.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Martyn Hogg, Gareth Sandilands, Rhys Thomas, Merfyn Parry, Mark Young

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd David Williams ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, Y Cynghorydd Julie Matthews.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gareth Sandilands gysylltiad personol gydag eitem 6 gan ei fod yn un o'r cynrychiolwyr a benodwyd gan y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni thynnwyd sylw'r Cadeirydd at unrhyw eitemau brys cyn dechrau'r cyfarfod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2024. Felly:

PENDERFYNODD y Pwyllgor: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.

Materion yn codi: Roedd eitem fusnes 5, 'Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 – Storm Babet': copi o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i'r Cynghorydd Arwel Roberts mewn ymateb i'w ymholiad ar derfynau amser yr ymchwiliad ar gyfer y byndiau ar hyd afon Clwyd yn ardaloedd Rhuddlan a'r Rhyl wedi ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth fel rhan o'r ddogfen 'Briff Gwybodaeth' cyn y cyfarfod.

5 STATWS BANER LAS I DRAETHAU SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r aelodau. Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i'r cyfarfod i gyfrannu at y drafodaeth ac ateb cwestiynau'r Aelodau. Diolchodd yr Aelod Arweiniol i swyddogion am eu presenoldeb yn y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn galluogi Aelodau i graffu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda sefydliadau partner mewn cais i ennill achrediad statws Baner Las ar gyfer cynifer ag sy'n bosibl o draethau'r sir. Pwysleisiwyd y byddai'n anodd iawn i'r Rhyl gael statws Baner Las gan ei fod mor agos i aber afon Clwyd ac effeithiau'r llanw sy'n dod i mewn. Cafodd y rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu'r Rhyl o ganlyniad i hyn eu hamlinellu yn y cyflwyniadau a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru fel y rhesymau pam roedd traethau Prestatyn wedi symud o ansawdd dŵr rhagorol i ansawdd dŵr da gan arwain at dynnu ei statws Baner Las.

Arweiniodd yr Uwch Swyddog: Dulliau Rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru aelodau drwy gyflwyniad ar Statws y Faner Las ar gyfer Traethau Sir Ddinbych. Arweiniwyd Aelodau drwy'r broses ddosbarthu a ddefnyddir i benderfynu ansawdd y dŵr ar draethau.

Yn 2015 fe ddaeth y broses ar gyfer profi ansawdd dŵr yn fwy llym gyda samplau yn cael eu hasesu ar gyfer bacteria E Coli ysgarthol ac Enterococci Perfeddol. Dangoswyd graffiau manwl i Aelodau yn cynnwys y canrannau o facteria a oedd wedi eu darganfod mewn dŵr dros y blynyddoedd blaenorol. Os oedd y data Darogan a Thynnu yn cofnodi mwy na dau ddiwrnod dilynol o ansawdd dŵr gwael yna nodwyd fod y dŵr yn anaddas i ymdrochi ynddo. Mewn achosion o'r fath byddai Cyngor Sir Ddinbych yn gosod arwyddion erbyn 10am yn rhybuddio'r cyhoedd fod y dŵr wedi ei ddosbarthu fel dŵr anaddas ar gyfer ymdrochi.

Eglurwyd yr effeithiau ar ansawdd dŵr yn Y Rhyl gan gynnwys gwaith carthffosiaeth, gorsafoedd pwmpio a charthffos yn gorlifo ynghyd ag effeithiau amaethyddol fel da byw yn cael at nentydd a thaenu ar y tir a oedd i gyd wedi arwain at oblygiadau o ran ansawdd y dŵr ar draethau'r Rhyl.

O ran y dyfodol roedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru nifer o gynlluniau mewn grym i geisio gostwng y bacteria amaethyddol sy'n arllwys i'r system ddŵr, sef y rheoleiddio parhaus o ran gollyngiadau a ganiateir, Canllaw dosbarthu Gorlif Storm a'r sylw parhaus a roddir i leihau ffynonellau bacteria amaethyddol. Cafodd datrysiadau mwy hirdymor eu hamlinellu a'u hegluro. Fodd bynnag byddai angen cynnydd sylweddol mewn cyllid gan y llywodraeth ganolog ar gyfer cynlluniau amaethyddol er mwyn darparu anogaeth i ffermwyr i osod cynlluniau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Swyddog: Dulliau Rheoleiddio am gyflwyniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Arweiniodd Swyddog Cyswllt Ansawdd Afonydd o Dŵr Cymru yr Aelodau drwy gyflwyniad ar ansawdd dŵr ymdrochi.

Roedd Dŵr Cymru yn diheintio'r garthffrwd ger dyfroedd ymdrochi, ond nid dyma'r drefn arferol ar gyfer afonydd. Roedd hyn yn helpu i gynnal yr ansawdd ar gyfer ymdrochi. Roedd gwaith trin dŵr gwastraff Dinbych, Dyserth, Llanelwy a Llanasa i gyd yn derbyn triniaeth UV. Roedd Dŵr Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i wneud rhagor o welliannau a lle nodwyd y rhain byddent yn dod yn rhan o'u cynlluniau buddsoddi pum mlynedd. Hefyd cynhaliodd Dŵr Cymru ymchwiliadau i ansawdd dŵr ymdrochi mewn ardaloedd lle gall eu hasedau gyfrannu at leoliadau statws gwaeth.

Rhoddwyd manylion i Aelodau ar orlif dŵr yn ardal traethau'r Rhyl a Phrestatyn. Dros y tymor ymdrochi roedd gorlifoedd storm yn gollwng ar ddau ddiwrnod enghreifftiol gyda thywydd eithriadol o wlyb a gofnodwyd gan y Swyddfa Dywydd hefyd wedi cyfrannu at ganlyniadau gwael o ran dŵr ymdrochi.

Cwblhaodd Dŵr Cymru astudiaeth Dyfroedd Ymdrochi Arfordirol ar gyfer Y Rhyl a Phrestatyn yn 2017 a nododd mai ffynonellau llygredd gwasgaredig oedd y prif ffactor dros effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi. Gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru am gymorth pellach gan Dŵr Cymru i gynyddu'r ddealltwriaeth o ffynonellau gwasgaredig ac felly allbwn y Rhaglen Amgylcheddol Naturiol er mwyn i Dŵr Cymru gwblhau astudiaeth dŵr ymdrochi arall ar gyfer 2020-2025. Eglurwyd y data ansawdd dŵr o'r astudiaethau a wnaed yn fanwl i Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cyswllt Ansawdd Afonydd am gyflwyniad Dŵr Cymru a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Cwestiynodd Aelodau y strategaethau a oedd mewn grym ar gyfer gorsafoedd pwmpio a phibellau all-lif. Nododd y Rheolwr Carthffosiaeth fod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn rheolaidd ar hyd a lled y sir. Roedd gorsafoedd pwmpio yn cael eu harchwilio yn wythnosol o leiaf gyda rhai mewn ardaloedd arfordirol a oedd yn fwy agored i gael eu hatal gan dywod yn cael eu harchwilio'n fwy aml. Hefyd glanhawyd y pibellau yn aml. Roedd gan Dŵr Cymru lawer o wybodaeth yn ymwneud â'i holl isadeiledd ac roedd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i reoli ei isadeiledd ar sail risg. Roedd Deallusrwydd Artiffisial hefyd nawr yn dod i'r amlwg o ran rheoli gorlif storm. Pwysleisiodd swyddogion mai systemau'r afonydd ac nid

asedau Dŵr Cymru oedd ffynhonnell rhan helaeth y llygredd a oedd yn mynd i mewn i'r môr.

Gofynnodd Aelodau a oedd cyllid yn broblem yn yr hinsawdd bresennol. Nododd y Rheolwr Carthffosiaeth nad oedd cyllid yn broblem ar hyn o bryd.

Amlygodd Aelodau yr angen am bartneriaeth waith gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a ffermwyr gan holi pa fentrau oedd mewn grym i annog ffermwyr i weithio ochr yn ochr â'r cynlluniau. Nododd yr Uwch Swyddog: Dulliau Rheoleiddio nad oedd yna unrhyw fentrau mewn grym ar hyn o bryd ar gyfer ffermwyr. Nid oedd yna unrhyw reoliadau mewn grym yn atal da byw ar ffermydd rhag defnyddio neu fynd i afonydd. Fodd bynnag, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos gyda pherchnogion glannau afonydd i annog gosod ffensys ar lannau afonydd a chanfod ffynonellau dŵr eraill i dda byw eu defnyddio. Roedd y mater o gyllid posibl wedi ei godi gyda Llywodraeth Cymru fodd bynnag nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i awgrymu fod hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelodau gwestiynau yn ymwneud â thraethau, afonydd, ffosydd/systemau draenio, yn ogystal â materion cynllunio yn ymwneud â'u wardiau penodol. Awgrymwyd fod y cwestiynau hyn yn cael eu hateb yng nghyfarfodydd Grŵp Ardal yr Aelodau a oedd yn cael eu cynnal i drafod materion yng ngwahanol ardaloedd y sir. Cytunodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i fynychu cyfarfodydd Grŵp Ardal yr Aelodau i'r diben hwn, yn ddibynnol ar fod pob Grŵp Ardal Aelodau yn darparu briff manwl iddynt ar y materion lle roedd angen eu mewnbwn. Byddai hyn yn sicrhau fod y swyddogion mwyaf priodol yn bresennol er mwyn darparu atebion cynhwysfawr i'r cwestiynau a fyddai'n cael eu codi. Dywedodd y ddau sefydliad wrth Aelodau am annog preswylwyr i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o lygredd, cyflenwad wedi byrstio, llifogydd ayb drwy ddefnyddio eu llinellau cymorth gan mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol iddynt ymateb i ddigwyddiadau ac i wella gwasanaethau yn y dyfodol.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru am fynychu'r cyfarfod i roi eu cyflwyniadau llawn gwybodaeth ac am ddarparu atebion cynhwysfawr i'r ystod eang o gwestiynau gan Aelodau. Felly:

<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar yr uchod i –

(i) gydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr holl sefydliadau partner yn ymwneud â gwella ansawdd dŵr ymdrochi yn Sir Ddinbych, gan gynnwys rôl benodol pob partner mewn perthynas â chael achrediad statws Baner Las ar gyfer cynifer â phosibl o draethau'r sir; a

(ii) chydnabod parodrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i fynychu unrhyw rai o gyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau'r Cyngor i drafod meysydd penodol/lleol o ddiddordeb neu bryder yn ddibynnol ar fod pob Grŵp Ardal Aelodau yn darparu briff clir i'r sefydliadau ymlaen llaw ar y materion maent yn dymuno eu trafod.

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2023/24

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru 2023/24 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i Aelodau.

Diben yr adroddiad oedd i hyrwyddo Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru a rhoi hyder i Aelodau fod Sir Ddinbych yn barod pe byddai yna argyfwng. Sicrhaodd Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru fod trefniadau sylweddol ar waith mewn perthynas â chynllunio rhag argyfwng o fewn y Cyngor ac mae'r adroddiad yn nodi'n benodol:

- Sut mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn cyfrannu at wytnwch a diogelwch cymunedau yn Sir Ddinbych.
- Rhaglen waith bresennol y Gwasanaeth.
- Y strwythur yng Nghyngor Sir Ddinbych i ymateb i argyfwng neu achos brys.
- Darpariaeth cynllunio rhag argyfwng y tu allan i oriau.
- Hyfforddiant a Datblygu i staff mewn rolau Cynllunio Rhag Argyfwng.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydweithio mewn partneriaeth ers sefydlu Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2014.

Mae'r Gwasanaeth yn ymgymryd â swyddogaethau'r Cynghorau o ran argyfyngau sifil posibl ac mae'n atebol i Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r Cynghorau hynny. Mae Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth i sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl, 2004
- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, 2015
- Rheoliadau Diogelwch Piblinellau, 1996
- Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd), 2019

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r gwaith y mae Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd fod disgwyl i adroddiad Grŵp Cau Pontydd Afon Menai fod ar gael erbyn diwedd y flwyddyn adrodd bresennol. Hefyd amlinellodd ran Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn y broses o reoli traffig wedi i borthladd Caergybi gau yn annisgwyl o ganlyniad i'r difrod a achoswyd gan Storm Darragh.

Holodd Aelodau a ddylai'r Cyngor fod yn monitro bygythiadau a oedd yn digwydd o amgylch y byd a gofynnwyd a oedd y broses gynllunio ar gyfer argyfyngau posibl yn ymgorffori'r bygythiadau newydd hyn wrth i'r byd ddod yn fwy ansefydlog.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes fod yna Gofrestr Risg ac Asesiad ar gyfer y DU a Chymru gyfan a oedd yn nodi'r holl gynlluniau sydd mewn grym ar hyn o bryd. Roedd cynlluniau mewn grym ar gyfer ymosodiadau seibr posibl ac argyfyngau'n ymwneud â newid hinsawdd. Eglurodd y Swyddog Cynllunio Rhag Argyfwng ymhellach fod y tîm yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a oedd wedyn yn hysbysu'r Fforwm Cydnerthedd Aml-Asiantaeth a oedd yn edrych ar sut roedd risgiau i ddod yn cael eu lliniaru'n rhanbarthol. Roedd cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng yn llawer mwy na dim ond ymagwedd ranbarthol a lleol, roedd yna hierarchaeth cynllunio rhag argyfwng mewn grym. Yn ddibynnol ar natur y risg byddai Llywodraeth y DU a/neu Llywodraeth Cymru yn nodi'r risgiau a mesurau lliniaru cenedlaethol. Byddai hyn wedyn yn cael ei fwydo i wasanaethau cynllunio rhag argyfwng rhanbarthol i lunio mwy o fesurau lliniaru lleol a chynlluniau lleol i ymateb i'r argyfyngau amrywiol os ydynt yn digwydd. Mae'r cofrestrau risg rhanbarthol yn cynnwys risgiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Roedd disgwyl i Gofrestr Risg Gogledd Cymru gael ei chyhoeddi ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelodau a oedd y Cyngor yn barod ar gyfer unrhyw argyfyngau mewn perthynas â'r adnoddau oedd ar gael yn yr hinsawdd ariannol bresennol a holwyd sut y gallai Aelodau gael eu hyfforddi i ymdrin â'r sefyllfa pe bai'n codi.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes fod y Cyngor mor barod â phosibl. Roedd gan Aelodau lawer o wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw argyfyngau drwy gyfarfodydd y Cyngor, negeseuon e-bost a gâi eu cylchredeg ac amrywiaeth o ffurflenni cyfathrebu. Byddai hyfforddiant ymwybyddiaeth gyffredinol yn edrych ar y systemau cynllunio rhag argyfwng a oedd mewn grym yn cael ei ystyried yn dilyn y cyfarfod gyda chyfranogiad yr Aelod Arweiniol.

Nododd y Swyddog Cynllunio Rhag Argyfwng fod sesiwn friffio wedi ei darparu i Aelodau yn flaenorol ym Mai 2022 ac roedd Llawlyfr Aelodau wedi ei greu ar yr adeg honno ac wedi ei gylchredeg. Roedd y Tîm Cynllunio Rhag Argyfwng yn hapus i ddarparu unrhyw hyfforddiant pellach a oedd ei angen. Cynigodd swyddogion i ail gylchredeg y llawlyfr yn ogystal â dolenni wedi eu diweddaru i Aelodau**.**

Trafododd Aelodau y posibilrwydd am i restr wirio yn cynnwys gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng gael ei chylchredeg. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes y byddai'n cydgysylltu gyda'r Tîm Cynllunio mewn Argyfwng ac yn trafod hyn ymhellach, gan ychwanegu y byddai yn fuddiol i Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes a'r Swyddogion Cynllunio Rhag Argyfwng am eu presenoldeb yn y cyfarfod.

Felly:

penderfynodd y pwyllgor: ***yn amodol ar yr uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol –***

(i) gydnabod y gwaith a wnaed gan Wasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru yn ystod 2023/24 fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol; a

(ii) chymeradwyo ymdrechion y Gwasanaeth yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol hyd yma yn ystod 2024/25 gyda'r bwriad o sicrhau fod trefniadau digonol mewn grym i ymateb a mynd i'r afael ag unrhyw argyfyngau a allai godi.

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Dywedwyd wrth Aelodau fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cadarnhau y byddant yn anfon cynrychiolwyr i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2025 i roi'r cyfle i Aelodau i ofyn cwestiynau ar y cynnydd hyd yma gyda Phrosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych. Yn ychwanegol byddai'r adroddiad ar Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Cyngor, a ohiriwyd o gyfarfod mis Hydref 2024 hefyd yn cael ei gyflwyno.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd o Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu roedd adroddiad Archwilio Cymru o'r enw 'Gofal Brys ac Argyfwng - Llif Allan o'r Ysbyty' wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor ar gyfer ystyriaeth bellach. Tra roedd hon yn astudiaeth genedlaethol, roedd ganddi oblygiadau lleol a rhanbarthol ac felly roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r pwyllgor ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma mewn gweithredu argymhellion yr astudiaeth. Gan mai amcan yr argymhellion oedd fod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol er budd y preswylwyr, byddai'n synhwyrol i gael cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n bresennol ar gyfer y drafodaeth. Roedd yr eitem felly wedi ei gosod yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod yn Ebrill 2025.

Gan fod Sir Ddinbych yn gweithredu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi penderfynu y byddai o fudd cynnal cyfarfod anffurfiol ar y cyd o Bwyllgor Craffu Partneriaethau Sir Ddinbych a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Conwy er mwyn archwilio'r cynnig a wnaed hyd yma gan yr holl bartneriaid o ran gweithredu'r argymhellion o ganlyniad i archwiliad Arolygiaeth Prawf EF o'r gwasanaeth. I'r diben hwn, roedd cyfarfod anffurfiol ar y cyd o'r ddau Bwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth 18 Mawrth 2025. Byddai'n cael ei gynnal o bell drwy fideo gynadledda gyda'r cofnodion yn cael eu cyflwyno i bwyllgor ffurfiol priodol pob Cyngor ar gyfer eu cadarnhau.

Dywedwyd wrth Aelodau fod cyfarfod nesaf Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion i'w gynnal ar 20 Ionawr 2025 a thynnwyd eu sylw at Atodiad 2 a oedd yn cynnwys ffurflen Gynnig Archwilio'r Aelodau a oedd i'w chwblhau a'i dychwelyd erbyn dechrau Ionawr os oedd gan Aelodau unrhyw bynciau yr hoffent iddynt gael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn rhaglen waith y pwyllgor archwilio yn y dyfodol.

Felly:

<u>penderfynodd y Pwyllgor</u>: yn ddibynnol ar yr uchod gadarnhau ei raglen waith fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Darparodd y Cynghorydd Bobby Feeley drosolwg o'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda Chanolfan Asesu Plant Is-ranbarthol Bwthyn y Ddôl ym Mae Colwyn. Hyd yma roedd cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru wedi ei roi ar gyfer canolfan 4 gwely. Roedd angen gwaith ychwanegol a llenwi dwy swydd arall cyn y gellid caniatáu cofrestru unrhyw welyau eraill. Roedd yr holl faterion a oedd yn weddill nawr wedi eu huwchgyfeirio i sylw'r Prif Weithredwr ac roedd disgwyl iddynt gael eu datrys yn y dyfodol agos. Felly:

<u>penderfynodd yr Aelodau</u>: dderbyn y wybodaeth a ddarparwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm